# MEREDITH, BENJAMIN (1700 - 1749), pregethwr gyda'r Bedyddwyr

**Enw:** Benjamin Meredith
**Dyddiad geni:** 1700
**Dyddiad marw:** 1749
**Rhiant:** William Meredith
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** pregethwr gyda'r Bedyddwyr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Nansi Ceridwen Jones

Ganwyd yn 1700 yn Llanwenarth, sir Fynwy, mab i William Meredith a oedd yn aelod blaenllaw a phregethwr gyda'r Bedyddwyr yn Llanwenarth. Bedyddiwyd ef yn 17 mlwydd oed a dechreuodd bregethu yn 1720. Tua 1730 fe'i gwahoddwyd i ofalu am eglwys Ymneilltuol Llanbrynmair, ac ar ôl bod yno am beth amser fe'i hordeiniwyd yn 1733, ond cyn pen blwyddyn, sef yn 1734, gorfu iddo ymadael oherwydd ei olygiadau diwinyddol. Ef oedd y Bedyddiwr olaf i fod yn weinidog ar yr hen gynulleidfa yn Llanbrynmair, ac ymddengys ei fod yn bregethwr poblogaidd ac i'r gynulleidfa gynyddu yn ystod y tymor byr y bu ef yno. Dychwelodd i Lanwenarth ond bu ymrafael yn yr eglwys yngl n ag athrawiaeth y Drindod ac fe'i diarddelwyd ef a'r ychydig aelodau a goleddai ei syniadau yn 1748. Bu'n pregethu i'w ddilynwyr mewn lle yn agos i'r addoldy, ac wedi hynny, pan wanychodd ei iechyd, yn ei gartref. Cyfieithodd yn Gymraeg lyfr John Bunyan, *Jerusalem Sinner Saved*, fel *Pechadur Jerusalem yn Gadwedig*, a gyhoeddwyd yn 1721 gydag ail argraffiad yn 1765. Bu farw fis Rhagfyr 1749.

## Awdur

**Nansi Ceridwen Jones**

## Ffynonellau

H. Blackwell, NLW MS 9266A: A Dictionary of Welsh Biography (300)

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894), 194

*Collections Historical and Archaeological relating to Montgomeryshire*, 1886, xix, 338-9

Joshua Thomas, *Hanes y Bedyddwyr ymhlith y Cymry: o amser yr Apostolion, hyd y flwyddyn hon: yn ddwy ran* (1778), 223-5, 233-4, 292-3

*Hanes y Bedyddwyr yn Nghymru*, iii, 130, 180-1; iv, 157

*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, i. 237-8

I. C. Peate(gol.), *Hen Gapel Llanbrynmair, 1739–1939* (1939), 27-43

*Y Cofiadur*, 1924, rhif 2 (25-8)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732656

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu